# Y Môr Coch



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Wythnos yma byddwn yn edrych ar stori'r Iddewon yn dianc rhag yr Eifftiaid wrth gerdded trwy'r Môr Coch o Exodus 14. Rhai o'r pwyntiau dysgu byddwn yn ffocysu arnynt yw:

- Mae Duw yn creu ffordd pan mae pethau'n edrych yn amhosibl.
- Does dim yn sefyll yn y ffordd o gynlluniau Duw.
- Arweiniodd Miriam y bobl mewn addoliad. Dylwn ni addoli Duw a rhoi diolch Iddo am y ffordd mae'n gofalu amdanom.


Video playlist

inc video lesson









## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn am ddeg pla'r Aifft a bod Ffaro wedi rhyddhau'r Iddewon. Gofynnwch i'r plentyn os ydynt erioed wedi newid ei meddwl am rywbeth. Pwyntiwch allan bod yr Eifftiaid yn llawer cryfach na'r Iddewon.

I helpu egluro sefyllfa anodd yr Iddewon, crëwch fodel gyda'r plentyn. Gallwch ddefnyddio Legos, clustogau, neu wrthrych arall gall cael ei rannu. Ar yr ochr arall gallwch ddefnyddio tegan arall i gynrychioli'r Eifftiaid. Rhowch degan i gynrychioli'r Iddewon rhwng y ddau. Gofynnwch i'r plentyn ddod lan â ffordd i gael tegan yr Iddewon i ddiogelwch. Dangoswch iddo sut mae rhannu'r "môr" yn gadael i'r Iddewon ddianc yn ddiogel.

Pwyntiwch allan i'r plentyn bod yr Iddewon wedi croesi ar dir sych. Meddyliwch am amser pryd oedd wedi bwrw glaw ac roedd y ddaear yn fwdlyd. Atgoffwch y plentyn mor anodd yw cerdded ar fwd.

Meddyliwch am bethau sy'n amhosibl. Gall rhain fod yn wirion neu yn ddifrifol. Atgoffwch y plentyn bod dim yn amhosibl gyda Duw. Atgoffwch nhw fod gan Dduw gynllun. Meddyliwch am adegau pan oedd rhaid gohirio cynlluniau oherwydd y ffliw neu dywydd drwg. Dathlwch fod cynllun Duw bob amser yn dod yn wir.

Ystyriwch rhai o'r ffyrdd gallwn addoli Duw. Pwyntiwch allan bod Miriam a Moses yn canu a chwarae offerynnau.  Dewiswch gân addoli (neu cyfansoddwch un) a chanwch gyda'ch plentyn. Gallwch addasu gyda "offerynnau" fel cnau mewn jar neu lwyau pren ar blât fetel. Gallwch hyd yn oed glapio rhythm i'r miwsig. Dathlwch ac addolwch Dduw gyda'ch gilydd.

© 2022 truewaykids.com



Gwelodd yr Iddewon popeth gwnaeth Duw i'w amddiffyn rhag yr Eifftiaid.

Roeddynt yn llawn llawenydd.

Roeddynt eisiau canmol Duw.

Dechreuodd Moses a'r holl bobl ganu cân i Dduw.

Chwaraeodd Miriam a'i ffrindiau offerynnau.

Gyda'i gilydd moliannon nhw Dduw.



# Y Môr Coch



Gwnaeth Duw llawer o wyrthiau i ryddhau'r Iddewon o gaethiwed.

Ond yn fuan ar ôl i Ffaro adael iddynt fynd, newidiodd ei feddwl.

Ffeindiodd Ffaro Moses a'i bobl. Roeddynt yn gwersyllu nesa i'r Môr Coch.

Roedd Moses a'r bobl yn gaeth ac yn ofnus iawn.

"Bydd Duw yn ein hamddiffyn," dywedodd Moses.



Dywedodd Duw wrth Moses am godi ei ffon dros y môr.

Chwythodd gwynt enfawr trwy gydol y nos.

Rhannodd dyfroedd y Môr Coch.

Roedd llwybr sych trwy'r canol.

Roedd Duw wedi creu gwyrth i achub ei bobl.

Cerddodd y bobl ar draws gwaelod y môr!





Cyrhaeddodd pawb i'r ochr arall yn ddiogel.

Ond nid oedd Ffaro am roi'r gorau iddi.

Dilynodd y fyddin nhw i mewn i'r môr.

Dywedodd Duw wrth Moses am chwifio ei ffon eto.

Chwalodd y waliau dŵr yn ôl i'w lle.

Cafodd Ffaro a'i fyddin eu sgubo i ffwrdd.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Offerynnau cerdd

Gwnewch rhai offerynnau cerdd syml gyda'ch plentyn neu defnyddiwch rhai sydd gennych yn barod o gwmpas y tŷ.

Chwaraewch i gyfeilio rhai o'ch hoff ganeuon addoli. Peidiwch â phoeni am fod allan o diwn. Bydd eich plentyn yn cael hwyl. Siaradwch am sut dylwn addoli Duw.





## Gêm croesi'r afon

Gwnewch ardal afon ffug ar y llawr.

Rhowch bapur i greu cerrig camu ar y llawr. Gofynnwch i'ch plentyn groesi heb gyffwrdd a'r dŵr.

Os ydynt yn ffeindio hyn yn rhy hawdd, tynnwch rhai o'r cerrig camu i ffwrdd.

## Actiwch gyda blociau neu reis

Actiwch stori'r Môr Coch gan ddefnyddio teganau eich plentyn.

Meddyliwch am ddefnyddio reis neu blociau adeiladu i ffurfio'r môr.

Defnyddiwch rhai o'i gymeriadau tegan fel Moses.



© 2022 truewaykids.com

# Croeswch y Môr

Pa fath o drafnidiaeth byddai'n bosib defnyddio i groesi'r môr? Cylchwch yr atebion cywir.













© 2022 truewaykids.com

# Llongau tanfor

Cydweddwch luniau'r llongau tanfor



© 2022 truewaykids.com



# Gêm Siasio

## Sut i chwarae

Chwaraewr 1 yn rholio'r dis gyntaf. Dyma eu man cychwyn.

Chwaraewr 1 yn rholio'r dis eto ac yn dechrau cymryd tro gyda chwaraewr 2.


Y bwriad yw i chwaraewr 2 ddal chwaraewr 1 cyn iddynt gyrraedd y diwedd.


1

2

© 2022 truewaykids.com

# Sawl un gallwch gyfri?





© 2022 truewaykids.com

# Crefft Y Môr Coch

## Pethau byddwch angen:

- Templed
- Cerdyn gwyn
- Siswrn
- Glud
- Papur glas
- Tywod chwarae (opsiynol)




## Beth i'w wneud:




Torrwch allan y templed. Lliwiwch os ydych eisiau.




Plygwch fel dangoswyd.



Torrwch stribedi o bapur.



Cyrliwch stribedi o bapur.




Defnyddiwch eich bys neu bensil.




Opsiynol: gludwch ac ysgeintiwch dywod ar ddarn o'r llawr.


https://youtu.be/UDxEgAlc2Ds

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com









© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Nothing Is Impossible

https://youtu.be/SzYr3sXi2Js

## Every Move I Make

https://youtu.be/MPvnZILn6EY

## Everybody Get Walkin'

https://youtu.be/KcBw06THpn0

# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am eich cadw'n ddiogel.

Diolchwch i Dduw am wneud ffordd pan oedd pethau'n ymddangos yn amhosib.

Diolchwch i Dduw Ei fod wedi anfon yr Iesu i fod y Ffordd i ni.

# Wythnos Nesaf:

## Y Deg Gorchymyn

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com